# DRAFFT / DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Cwmbran, ar 7 Tachwedd 2008 / *Minutes of meeting held at County Hall, Cwmbrân, on 7 November 2008***

## Yn Bresennol / *Present*

**Ynys Môn / *Anglesey***
Eurfryn Davies
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey
A Davidson
Christine Abbas

**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***

**Caerffili/ *Caerphilly***
Michael Gray
Christine Thompson
Kathy Mathias
Vicky Thomas

**Caerdydd / *Cardiff***
Caroline Neudegg
Laura Burridge

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Helen Gibbon
Mary Parry

**Ceredigion**
Mary Parry
Vaughan Salisbury

**Conwy**
Nicholas Richter
Gavin Craigen

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Gavin Craigen
Mairwenna B Lloyd
Brian Huw Jones

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Gavin Craigen

**Gwynedd**
Bethan James

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey
Jan Thomas
Lisa Wilkinson
Liz Hepburn
Sue Thomas
Sue Cave
Pat Saines ?
Brian Strong ?

**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***
Jen Malcolm

**Casnewydd / *Newport***
Vicky Thomas
Sally Northcott

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***

**Powys**
Julie Pugh

**Rhondda Cynon Taf**
S Allan

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas

**Torfaen**
Margaret Oelmann
Marilyn Frazer
Margaret Pead
Vicky Thomas

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Gill Vaisey

**Wrecsam / *Wrexham***
Vicky Barlow
Tania ap Sion

**Sylwedyddion / *Observers***
Leslie J Francis
(Canolfan y Santes Fair / St Mary's Centre)
Denize Morris (DCELLS)
Sams George ?
Jane P Foulser
Anthony Sassor ?
D N ????

? = annarllenadwy / *illegible*

| **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Cwmbrân, ar 7 Tachwedd 2008** | **Minutes of meeting held at County Hall, Cwmbran, 7 November 2008** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a chroeso**<br>Estynnodd y Cynghorydd Jane Foulser, Is-Gadeirydd Cyngor Sir Fynwy, groeso i'r aelodau. Diolchwyd i'r athrawon a oedd wedi darparu arddangosfeydd ar gyfer y cyfarfod, ac i Emma Tapper am ei gwaith yn trefnu'r cyfarfod. | **2. Introduction and welcome**<br>Cllr Jane Foulser, Vice Chair of Monmouthshire County Council welcomed members. Thanks were extended to teachers who had provided displays for the meeting and Emma Tapper for her work organising the meeting. |
| **2. Adfyfyrio tawel**<br>Canolbwyntiodd yr adfyfyrio ar gyfraniad sylweddol y diweddar Hywel Evans i addysg grefyddol ac i CCYSAGC. Tynnwyd sylw at y Deyrnged gan Iolo Williams a oedd wedi ei chynnwys ym mhapurau'r aelodau. Canolbwyntiodd yr adfyfyrio hefyd ar etholiad diweddar y darpar Arlywydd Barack Obama. | **2. Quiet reflection**<br>Reflection focused on the significant contribution of Hywel Evans to religious education and to WASACRE. Attention was drawn to the Tribute written by Iolo Williams included with members' papers. Reflection also focused on the recent election of Obama. |
| **3. Ymddiheuriadau**<br>Carys Thomas, Tegid Roberts, Geraldine Grant, Ieuan Wyn Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Eirian Pierce, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Steve Wilson, Liz Hacket- Pain (?), Isobel Busby, Sharon Perry-Phillips, J Rodgers, Lisa Sheriff, Wyn Meredith, Taris Lyons, John Lewis, y Cynghorydd Hando, D Brooks, Ceri Weatherall, Tudor Thomas, John Rodger, Gwyn Rodgers. | **3. Apologies**<br>Carys Thomas, Tegid Roberts, Geraldine Grant, Ieuan Wyn Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Eirian Pierce, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Steve Wilson, Liz Hacket- Pain (?), Isobel Busby, Sharon Perry-Phillips, J Rodgers, Lisa Sheriff, Wyn Meredith, Taris Lyons, John Lewis, Cllr Hando, D Brooks, Ceri Weatherall, Tudor Thomas, John Rodger, Gwyn Rodgers. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug ar 26 Mehefin 2008**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. | **4. Minutes of the meeting held at Mold, 26 June 2008**<br>The minutes of the meeting were accepted as a correct record. |
| **5. Materion yn codi**<br>Yr oedd nifer o'r materion a oedd yn codi yn eitemau agenda hefyd, a chawsant eu trafod yn y mannau priodol ar yr agenda.<br><br>Tudalen 3, pwynt 3: Cadarnhawyd bod llythyrau o ddiolch wedi eu hanfon at Gavin Craigen a Susan Collingbourne. | **5. Matters arising**<br>A number of matters arising were also agenda items and were considered at the appropriate points on the agenda.<br><br>Page 3, point 3: it was confirmed that letters of thanks had been sent to Gavin Craigen and Susan Collingbourne. |

| | |
|---|---|
| Tudalen 4, pwynt 5, paragraff 4: Rhoddodd Vicky Thomas wybod i'r aelodau fod cyfarfod o Fforwm Estyn wedi ei gynnal, ond nad oedd ganddi fanylion am y cyfarfod.<br><br>Tudalen 4, pwynt 5, paragraff 5: Yr oedd y mater hwn wedi bod yn destun ymholiadau pellach. Yr oedd awdur yr erthygl yn 'Yr Athro' wedi cydnabod i'r sylwadau ar addoli ar y cyd fod yn gamgymeriad ar ei ran; ond yng ngolau ei ymddeoliad, teimlai y dylai ei olynydd fynd ar drywydd y mater. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn mynd ar ôl hyn drwy ysgrifennu llythyr arall at UCAC ar ran yr aelodau.<br><br>Tudalen 8, pwynt 8b: Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod Geraint Davies wedi ei benodi'n Olygydd *RE News*, ac mai'r dyddiad cau ar gyfer cyfraniadau i'r rhifyn nesaf oedd 19 Ionawr 2009.<br><br>Tudalen 8ff, pwynt 9: Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i Gavin am ei waith, ac am lwyddiant y Gynhadledd Ôl-16. | Page 4, point 5, paragraph 4: Vicky Thomas informed members that an Estyn forum meeting had taken place but she had no details of the meeting.<br><br>Page 4, point 5, paragraph 5: This matter has been pursued. The author of the article in 'Yr Athro' acknowledged that the comments concerning collective worship were his mistake, but in light of his retirement felt that the matter should be pursued by his successor. It was agreed that the Chair would pursue this by writing another letter to UCAC on behalf members.<br><br>Page 8, point 8b: The Chair informed members that Geraint Davies had been appointed as Editor for *RE News*, and that the deadline for contributions to the next issue was 19 January 2009.<br><br>Page 8ff, point 9: The Chair and members thanked Gavin for the work and success of the post-16 conference. |
| **6. Gohebiaeth**<br>Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Christine Abbas ynglŷn â dau fater. Oherwydd i'r ohebiaeth gael ei derbyn ar ôl cyfarfod tymor yr hydref o'r Pwyllgor Gwaith, byddai'n cael ei chynnwys yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Gwaith. | **6. Correspondence**<br>Correspondence was received from Christine Abbas on two matters. Due to the correspondence being received after the autumn term Executive Committee meeting, the correspondence would be included in the following Executive meeting. |
| **7. Cyflwyniad: 'Building Learning Power'**<br>Gwnaed cyflwyniad gan Laura Burridge o Goleg Cymunedol Llanfihangel, Caerdydd, dan y teitl 'Building Learning Power in RE: improving collaboration and group work skills'. Dosbarthwyd taflenni i'r aelodau.<br><br>Trosolwg: Yr oedd 'Building Learning Power' (BLP) yn rhaglen datblygiad | **7. Presentation: Building Learning Power**<br>A presentation was given by Laura Burridge from Michaelston Community College, Cardiff, entitled 'Building Learning Power in RE: improving collaboration and group work skills'. Handouts were distributed to members.<br><br>Overview: 'Building Learning Power' is a major professional development |

| | |
|---|---|
| proffesiynol bwysig a oedd yn cael ei darparu yng Nghaerdydd ac a oedd â'r nod o helpu pobl ifanc i ddod yn well dysgwyr; yr oedd yn rhan o ymchwiliad a oedd yn cael ei ariannu gan CACC. Yr oedd gan 'Building Learning Power' y potensial i godi cyrhaeddiad, gwella ymddygiad, cynyddu cymhelliant, mwynhad a chreadigrwydd mewn dysgu, a sefydlu arferion gwerthfawr ar gyfer dysgu gydol oes. Nodweddid yr ardal yr oedd Goleg Cymunedol Llanfihangel yn ei gwasanaethu gan lefelau uchel o anfantais gymdeithasol ac economaidd, fel yr oedd ystadegau ynglŷn â phrydau ysgol am ddim, a'r gofrestr AAA, yn dangos. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y defnydd o BLP ac ar ei chanlyniadau cadarnhaol gyda dosbarth blwyddyn 8 a dosbarth blwyddyn 9. Cyflwynwyd yr aelodau i'r fethodoleg a'r dulliau addysgu a oedd yn cael eu defnyddio, ac i weithgareddau a oedd yn berthnasol i BLP. Cymerodd yr aelodau ran mewn un o'r gweithgareddau hyn. Er bod y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y defnydd o BLP mewn AG, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i BLP gael ei gweld o safbwynt ysgol gyfan.<br><br>Yr oedd AALl Caerdydd yn gobeithio y byddai holl ysgolion yr Awdurdod yn gallu derbyn hyfforddiant mewn BLP. | programme taking place in Cardiff which aims to help young people become better learners, and it was part of a GTCW funded enquiry. Building learning power has the potential to raise achievement, improve behaviour, increase motivation, enjoyment and creativity in learning, and establish habits of value for lifelong learning. Michaelston Community College has high levels of social and economic disadvantage, supported by statistics relating to free schools meals and the SEN register. The presentation focused on the employment of BLP and its positive results with a year 8 class and a year 9 class. Members were introduced to the methodology employed, teaching approaches, and activities relevant to BLP. WASACRE members participated in one such activity. Although the presentation focused on the use of BLP in RE, it was emphasised that it was important for BLP to be viewed from a whole-school perspective.<br><br>Cardiff LEA hoped that all schools in the Authority would be able to have BLP training. |
| **8. Cyflwyniad: Enghreifftio'r Fframwaith AG.** Rhoddodd Denize Morris, y Swyddog Pwnc ar gyfer AG yn APADGOS, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â chynnydd gyda'r deunyddiau enghreifftio ar gyfer y fframwaith AG. Yr oedd copïau o'r ddogfen gyfarwyddyd ar gyfer 14–19 ar gael yn y cyfarfod; yr oedd y ddogfen yn crynhoi'r posibiliadau ar gyfer ysgolion (yr oedd yr un ddogfen gyfarwyddyd wedi ei rhannu â'r rhai a fynychodd y Gynhadledd Ôl-16 ym mis Hydref). Yr oedd y ddogfen yn cyflwyno amrediad o batrymau ar gyfer amserlennu AG statudol, yn amrywio o ddarpariaeth | **8. Presentation: Exemplification of the RE Framework.** Denize Morris, Subject Officer for RE at DCELLS updated members on the progress of the exemplification material for the RE framework. Copies of the 14-19 guidance document were made available at the meeting, summarising the possibilities for schools (the same guidance document was also shared with those attending the post-16 conference in October). The document presents a range of models for timetabling statutory RE, from standard provision to others, following various learning pathways. Case studies illustrating different timetabling models |

| | |
|---|---|
| safonol i fathau eraill o ddarpariaeth a oedd yn dilyn amryfal lwybrau dysgu. Archwiliwyd astudiaethau achos a oedd yn enghreifftio gwahanol batrymau amserlennu. Pwysleisiwyd bod AG yn rhan hanfodol o addysg ar gyfer plant 14–19 oed, ac yr oedd yr arweiniad yn dangos yr amryfal ffyrdd y gellid ei gweithredu. | were explored. It was emphasised that RE is an essential part of education for 14-19 year olds and the guidance shows the various ways in which it can be implemented. |
| Mewn perthynas â'r arweiniad ar gyfer CA2 a CA3, y gobaith oedd y byddai copi drafft ar gael yn y flwyddyn newydd ac y byddai digwyddiad lledaenu'n cael ei gynnal. Yr oedd yr arweiniad yn canolbwyntio ar ddull seiliedig ar sgiliau, gan ddangos sut i weithredu'r tri sgìl craidd rhyngberthynol. Pwysleisiwyd bod hyn yn wahanol i ddull seiliedig ar gynnwys, ac y byddai'n cymryd amser i ymwreiddio. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r sgiliau, dylai disgyblion fod yn gweithio'n fanylach gyda chynnwys nag o'r blaen. | With regard to the KS2 and KS3 guidance, it was hoped that a draft copy would be made available in the new year and that there would be a dissemination event. The focus of the guidance is the skills-based approach, showing how to implement the three inter-related core skills. It was emphased that this is different from a content-based approach and would take time to embed. However, in order to realise the skills, pupils should be working with content in more depth than before. |
| Mewn perthynas ag asesu, rhaid oedd asesu holl waith y disgybl drwy gydol y cyfnod allweddol, ac yna llunio dyfarniad crwn ynglŷn â'r sgiliau a'r lefelau a gyrhaeddwyd erbyn diwedd y cyfnod allweddol. | With regard to assessment, the whole work of the pupil had to be assessed throughout the key stage, and then a rounded judgement made of the skills and levels achieved by the end of the key stage. |
| Nod y gwaith cyfredol oedd cynhyrchu cyfarwyddyd ynglŷn â'r fframwaith, a deunyddiau i ategu'r fframwaith. Cyflwynwyd y deunyddiau canlynol, a noddid gan APADGOS:<br>(a) Y gyfres *World Faiths Today* ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2, sydd yn cymryd credoau, athrawiaethau, ac arferiad fel man cychwyn tra'n cynnwys cwestiynau sylfaenol.<br>(b) *Important Fundamental Questions*, sydd yn cymryd cwestiynau sylfaenol fel man cychwyn tra'n cynnwys credoau, athrawiaethau, ac arferiad.<br>Mae'r ddau adnodd yn bwysig ar gyfer dull seiliedig ar sgiliau o gyflwyno AG.<br>(c) Tri adnodd DVD:<br>i. dau adnodd DVD i ategu'r gyfres | The aim of the current work is to produce guidance on the framework and also materials to support the framework. The following DCELLS sponsored materials were introduced:<br>(a) *World Faiths Today* series for key stage 2 pupils which starts from beliefs, teachings, and practice, while including fundamental questions.<br>(b) *Important Fundamental Questions* series which starts from fundamental questions while including beliefs, teachings, and practice.<br>Both resources are important for a skills-based approach to RE.<br>(c) Three DVD resources:<br>i. two DVD resources to support the |

| | |
|---|---|
| *Important Fundamental Questions* (gweler uchod); mae'n cynnwys cyfweliadau, gêmau etc sy'n ymwneud â chwestiynau sylfaenol. Dylai rhan gyntaf yr adnodd (ar faddeuant a ffydd) fod ar gael yn ystod tymor y gwanwyn. Dangoswyd clip o'r drafft o'r adran 'What are the benefits of forgiveness?', sydd yn archwilio'r thema o wahanol safbwyntiau ffydd. Bydd ail ran yr adnodd yn ymwneud â dioddefaint, chwilio am ystyr, ac astudiaeth achos o droseddwr diwygiedig. Bydd yr adnoddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | *Important Fundamental Questions* series (see above), which includes interviews, games, etc. based around fundamental questions. The first part of the resource should be available in the spring term (on forgiveness and faith). Members were shown a clip from the draft 'What are the benefits of forgiveness?' section, exploring the theme from different faith perspectives. The second part of the resource will concern suffering, searching for meaning, and a case study of a reformed criminal. The resources will be available through the medium of Welsh and English. |
| ii. yr oedd trydydd DVD, dan y teitl 'BBC e-clips', wedi ei lansio yn y Gynhadledd Ôl-16 ym mis Hydref. Mae hwn yn adnodd mawr sydd wedi ei fwriadu i ategu AG 14–19, ac mae'n ymwneud yn agos iawn â bywydau pobl ifanc a Byd Gwaith. Mae llyfryn gwybodaeth yn dod gyda'r DVD, yn cynnwys cynlluniau gwersi a deunydd arall. Gwyliodd yr aelodau glip ar arlwyo, a oedd yn dangos sut yr oedd deall crefyddau'n hanfodol i fyd gwaith. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r DVD a'r llyfryn gwybodaeth ar gael, ac fe'u rhoddir yn rhad ac am ddim i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. | ii. a third DVD was launched at the post-16 conference in October called BBC e-clips. This is a large resource designed to support 14-19 RE, and is closely related to young people's lives and the World of Work. An information booklet accompanies the DVD which includes lesson plans and other material. Members viewed a catering clip which illustrated how understanding religions was essential to the world of work. Welsh and English medium versions of the DVD and information booklet will be available, and given free of charge to all secondary schools in Wales. |
| Mae'r deunyddiau eraill sydd wedi eu noddi gan APADGOS ac a fydd yn ymddangos yn 2009 yn cynnwys llyfrau Cyfnod Sylfaen, pecyn ar y fasnach gaethweision, pecyn dysgu gweithredol ar gyfer CA2, pecyn sgiliau meddwl ar gyfer CA3, a chyfieithiadau o ddeunyddiau TGAU. | Other new DCELLS sponsored materials appearing in 2009 include foundation phase books, pack on the slave trade, KS2 active learning pack, KS3 thinking skills, and translations of GCSE materials. |
| (d) Bwriedir cyhoeddi arweiniad ar gyfer AG yn y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol. Yn ychwanegol at hynny, byddai prif safonwr a chynorthwy-ydd yn cael eu penodi i helpu ysgolion yn CA3 i ddatblygu | (d) Publication of guidance for RE in the Foundation Phase is planned for the future. In addition, a chief moderator (and assistant) would be appointed to help schools at key stage 3 to develop portfolios for assessment in RE and |

| | |
|---|---|
| portffolios ar gyfer asesu mewn AG a chymhwyso'r Lefelau (byddai hyn yn cael ei wneud mewn ysgolion peilot).<br><br>Dywedodd Denize Morris ei bod yn chwilio am enghreifftiau o arfer da mewn sgiliau meddwl, a gofynnodd i'r aelodau roi gwybod iddi am unrhyw enghreifftiau. I gloi, mynegodd y gobaith y byddai'r gwaith cydweithrediadol rhwng APADGOS a CCYSAGC yn parhau.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Denize Morris am ei chyflwyniad. Yn ystod sesiwn holi ac ateb a ddilynodd y cyflwyniad, cafodd y pwyntiau canlynol eu heglurhau neu eu cyflwyno:<br>(a) Mewn egwyddor byddai'r prif safonwr a'r cynorthwy-ydd wedi eu penodi erbyn Medi 2009, ond yr oedd yn fater o flaenoriaethu. Mewn egwyddor unwaith eto, pe bai caniatâd i fwrw ymlaen yn cael ei roi ym mis Medi, efallai y byddai cyfle am rywfaint o fewnbwn i gyfarfod CCYSAGC yn nhymor yr hydref 2009.<br>(b) Gwnaeth y Cadeirydd gyhoeddiad ynglŷn ag adnodd DVD arall a oedd ar gael ac a oedd yn berthnasol i AG a Byd Gwaith. Yr oedd recordiad (yn Saesneg) o gyflwyniad a roddwyd gan Pam Kelly, Ditectif Brif Arolygydd Heddlu Dyfed-Powys, i fyfyrwyr yng Ngholeg y Drindod, ar gael ar gais oddi wrth Vaughan Salisbury. Bu Pam Kelly'n un o'r siaradwyr yn y Gynhadledd Ôl-16. | application of the Levels (this would be done in pilot schools).<br><br>Denize Morris said that she was looking for examples of good practice in thinking skills, and asked members to report any examples to her. She concluded by expressing the hope that the collaborative work between DCELLS and WASACRE would continue.<br><br>The Chair thanked Denize Morris for her presentation. Questions and comments following the presentation clarified and introduced the following points:<br><br>(a) In theory the chief moderator and assistant would be in place by September 2009 but it was a matter of prioritising. Again, in theory, if the go-ahead would be given in September, there may be an opportunity for some input in the autumn 2009 WASACRE meeting.<br><br>(b) The Chair announced another DVD resource available relevant to RE and the World of Work. A recording (English medium) of a presentation given by Pam Kelly, Detective Chief Inspector Dyfed-Powys Police to Trinity College students, was available on application from Vaughan Salisbury. Pam Kelly was one of the speakers in the post-16 conference. |
| **9. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2008**<br>Yr oedd yr aelodau wedi derbyn crynodeb o'r cyfarfod hwn gyda'u papurau. Rhoddwyd dau ddarn o wybodaeth ychwanegol. Cadarnhawyd mai dyddiad cyfarfod haf CCYSAGC fyddai dydd Mercher, 24 Mehefin 2009, yng Ngwesty'r 'Wild Pheasant', Llangollen. Tynnwyd sylw'r aelodau at y dyddiad a'r maes gorchwyl ar gyfer y | **9. Report from the Executive Committee held on 22 September, 2008**<br>Members received a summary of this meeting with their papers. Two additional pieces of information were provided. The date for the summer WASACRE meeting was confirmed as Wednesday, 24 June 2009, The Wild Pheasant Hotel, Llangollen. The date and brief for the meeting with the Minister, Jane Hutt, on 25 November was drawn to members' |

| | |
|---|---|
| cyfarfod gyda'r Gweinidog, Jane Hutt, ar 25 Tachwedd. | attention. |
| **10. Arddangos adnoddau AG**<br>Yr oedd ceisiadau wedi eu gwneud am i sylw'r aelodau gael ei dynnu at yr adnoddau canlynol:<br><br>(a) dau lyfr ar Hindŵaeth gan Seeta Lakhani, dan y teitlau *Primary Hinduism*(Cyfnodau Allweddol 1 i 3) a *Hinduism for Schools* (Cyfnod Allweddol 4 ac uwch)<br><br>(b) Mae REMW wedi cyhoeddi dau addasiad Cymraeg newydd o gyhoeddiadau gan 'RE Today Services', dan y teitlau *Ymchwilio i Gredoau ar Waith yn y Byd* ac *Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys*. Yr oedd NAPfRE wedi awgrymu'r llyfrau hyn i REMW yng ngolau eu perthnasedd i'r Fframwaith AG newydd. Mae un arall o gyhoeddiadau REMW, *Amazing Lives*, yn gyfieithiad o lyfr Cymraeg, ac mae'n cyflwyno 100 o hanesion ffydd ar gyfer disgyblion cynradd, i ategu'r Cwricwlwm Cymreig.<br><br>Mae'r adnoddau ar gael gan Gyngor Llyfrau Cymru a chan Ysgrifennydd REMW, Sali Roberts. Dosbarthwyd ffurflenni archebu i'r aelodau.<br><br>(c) Cyflwynodd Gill Vaisey ei hadnoddau ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen, a oedd wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar. Yr oedd *Puddles and the Christmas Play* ar gael mewn diwyg Llyfr Mawr, ond yn Saesneg yn unig oherwydd nad yw cynhyrchu fersiwn Cymraeg yn y diwyg hwn yn hyfyw. Fodd bynnag, bydd fersiwn Cymraeg yn cael ei osod ar CD. Y gobaith yw y bydd teganau'n cael eu creu i fynd gyda'r adnodd. Mae *The Baby Birds* yn ailadrodd stori Fwslimaidd sy'n | **10. Showcase of RE resources**<br>Requests had been made for the following resources to be drawn to members' attention:<br><br>(a) two books for Hinduism by Seeta Lakhani, entitled *Primary Hinduism* (key stages 1 to 3) and *Hinduism for Schools* (key stage 4 and above).<br><br>(b) REMW has published two new Welsh adaptations of RE Today Services publications, entitled *Ymchwilio i Gredoau ar Waith yn y Byd* and *Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys*. NAPfRE had suggested the titles to REMW in light of their relevance to the new RE Framework. Another REMW publication, *Amazing Lives* is a translation of a Welsh title and presents 100 stories of faith for primary pupils, supporting the Curriculum Cymreig.<br><br>The resources are available from the Welsh Books Council and the Secretary for REMW, Sali Roberts. Order forms were distributed to members.<br><br>(c) Gill Vaisey introduced her recently published resources for Foundation Phase pupils. *Puddles and the Christmas Play* was available in Big Book format, in English only due to the viability of producing a Welsh version in this format. However, a Welsh version will be placed on CD. It is hoped that toys will be created to accompany the resource. *The Baby Birds* retells a Muslim story, illustrating care for living things. The story book is printed in standard size format for the English version and |

| | |
|---|---|
| dangos enghraifft o ofalu am bethau byw. Mae'r llyfr stori wedi ei argraffu mewn diwyg o faint safonol ar gyfer y fersiwn Saesneg, ac mae'n dod gyda fersiwn gweledol/clywedol ar CD ar gyfer cyfrifiaduron personol a byrddau gwyn. Mae dau wahanol fersiwn Cymraeg ar gael, wedi eu hysgrifennu ar wahanol lefelau, gan adlewyrchu anghenion Cymraeg ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Cafodd taflenni a oedd yn rhoi manylion am yr adnoddau hyn eu dosbarthu i'r aelodau.<br><br>(d) Tynnwyd sylw yn ogystal at y cyflwyniadau a oedd wedi eu gosod allan ar gyfer y cyfarfod: 'Nefoedd mewn Celf' a chystadleuaeth NATRE. | comes with an visual/audio version on CD for PC and Whiteboards. Two different Welsh CD versions are available written at different levels reflecting the Welsh language needs of Welsh-medium schools and English-medium schools. Leaflets detailing these resources were distributed to members.<br><br>(d) Attention was also drawn to the presentations set out for the meeting: Nefoedd mewn Celf and the NATRE competition. |
| **11. 'Inspiring RE: engaging young adults in the 21st Century. Crynodeb ac arfarniad.**<br>Rhoddodd Gavin Craigen grynodeb ac arfarniad i'r aelodau o gynhadledd CCYSAGC/APADGOS ar Addysg Grefyddol Ôl-16, a gynhaliwyd mewn dau fan cyfarfod yng Nghymru ar 4 Hydref 2008. Yr oedd y Gynhadledd yn wahanol i gynadleddau blaenorol CCYSAGC i'r graddau ei bod wedi ei thargedu at uwch reolwyr mewn ysgolion, ac yn ymwneud ag AG Ôl-16.<br><br>Amcanion Cyffredinol y Gynhadledd oedd:<br>(a) codi proffil AG mewn cyd-destun lle nad yw, yn aml iawn, yn cael ei derbyn;<br>(b) canfod a datgan buddion clir AG dda a symbylol ar y lefel hon;<br>(c) cynnig i ysgolion a cholegau adnoddau, syniadau ac arweiniad er mwyn eu galluogi i adolygu eu darpariaeth ac ail-egnioli eu penderfyniad i ddarparu AG o safon. | **11. Inspiring RE: engaging young adults in the 21st Century. Summary and evaluation.**<br>Gavin Craigen provided members with a summary and evaluation of the WASACRE/DCELLS conference for post-16 religious education held at two venues in Wales on 4 October 2008. The Conference was different from previous WASACRE conferences insofar as it was targeted at senior management in schools and was concerned with post-16 RE.<br><br>The aims of the Conference were:<br>(a) to raise the profile of RE in a setting that very often does not receive it;<br>(b) to identify and proclaim the clear benefits of good and stimulating RE at this level;<br>(c) to offer to schools and colleges, resources, ideas and guidance to enable them to review their provision and re-energise their determination to deliver quality RE. |

| | |
|---|---|
| Er mwyn cyflawni'r amcanion cyffredinol hyn, gwnaed cyflwyniadau gan:<br>(a) Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;<br><br>(b) Lat Blaylock, o Dare2Engage;<br>(c) Pam Kelly, Ditectif Brif Arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys;<br>(d) Emyr Williams ac Alice Pyke (Myfyrwyr graddedig mewn Astudiaethau Crefyddol), a safbwyntiau'r Ddraig Ffynci;<br>(e) Yr Athro Ian Russell, Athro Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Bangor.<br><br>Cafodd cyfraniad cadarnhaol pob cyflwyniad ei grynhoi a'i gloriannu ar gyfer yr aelodau. Yr oedd gweithdai wedi cael eu darparu hefyd, yn ymwneud â'r adnoddau rhad ac am ddim a roddwyd i'r cyfranogwyr. Yr oedd ymatebion cyfranogwyr i'r diwrnod, a gasglwyd o ffurflenni adborth, wedi pwysleisio gwerth y digwyddiad. Fodd bynnag, nodwyd dau beth a fu'n destun siom:<br>(a) nifer yr ysgolion a cholegau nad oedd wedi anfon cynrychiolwyr;<br>(b) nifer bychan iawn y cynrychiolwyr o ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg.<br>Byddai'r adnoddau a fu ar gael yn y Gynhadledd (ac eithrio'r cyfarwyddyd 14-19) yn cael eu postio i'r ysgolion nad oedd wedi cymryd rhan, a byddai costau hyn yn cael eu talu gan CCYSAGC. Byddai llythyr yn cael ei gynnwys gyda'r pecynnau, yn mynegi siom na fu modd i bob ysgol ganfod cynrychiolwyr.<br><br>Byddai Ysgol Syr Richard Gwyn (y man cyfarfod yng Ngogledd Cymru) yn fodlon gwneud rhywbeth o'r fath eto, pe bai CCYSAGC yn dymuno hynny.<br><br>Cost y digwyddiad, hyd yma, oedd £13,500, ond disgwylid y byddai rhagor o gostau'n dod i'r golwg. Yr oedd Trysorydd CCYSAGC wedi rhoi ar ddeall na fyddai hyn yn creu problem. Yr oedd cefnogaeth hael wedi ei derbyn tuag | In order to achieve these aims, presentations were made by:<br>(a) Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills;<br>(b) Lat Blaylock, of Dare2Engage;<br>(c) Pam Kelly, Detective Chief Inspector Dyfed-Powys Police;<br>(d) Emyr Williams and Alice Pyke (RS Graduate students) and Funky Dragon opinions;<br><br>(e) Professor Ian Russell, Professor of Public Health, Bangor University.<br><br>The positive contribution of each presentation was summarised and evaluated for members. Workshops were also provided, relating to the free resources given to participants. Participant responses to the day collated in feedback forms emphasised the value of the event. However, two disappointments were identified:<br><br>(a) the number of schools and colleges not represented;<br>(b) the very small representation of Welsh medium schools and colleges.<br><br>The resources available at the Conference would be mailed to non-participating schools (with the exception of the 14-19 guidance), and the bill for this would be paid by WASACRE. A letter would be included with the packs to express disappointment that a representative for each school could not be found.<br><br>Sir Richard Gwyn (the venue in north Wales) would be willing to do something like this again, if WASACRE wished.<br><br>The cost for the event to date was £13,500, but there were more costs expected. WASACRE Treasurer has indicated that this should not pose a problem. Generous support was received towards translation costs from a range of |

| | |
|---|---|
| at gostau cyfieithu, oddi wrth amrywiaeth o enwadau Cristnogol yng Nghymru; yr oedd y diffyg ariannol yn £800. Yr oedd REMW wedi cytuno i dalu'r diffyg hwnnw.<br><br>Diolchwyd unwaith eto i Gavin Craigen am ei waith yn trefnu'r Gynhadledd.<br><br>Wedi'r cyflwyniad, ategodd Bethan James (gan gyfeirio at gyfarfod NAPfRE y diwrnod blaenorol) y diolchiadau i Gavin Craigen a Denize Morris, a'r sylwadau am lwyddiant y Gynhadledd. Yr oedd cyfarfod NAPfRE wedi trafod p'un ai y gellid cael ail gyfle i gynnal y Gynhadledd, ar gyfer y rhai nad oedd wedi bod yn bresennol; ond sylweddolwyd bod y costau'n golygu nad oedd hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, gofynnwyd a fuasai'n bosibl i gynadleddau APADGOS ynglŷn â'r agenda 14–19, yn y dyfodol, gynnwys adran ynglŷn ag AG, ar gyfer y rhai na fu'n bresennol yng Nghynhadledd mis Hydref.<br><br>Cytunwyd y dylid anfon llythyr at Gyfarwyddwyr Addysg mewn AALl'au ynglŷn â'r pwnc hwn, er mwyn iddo fod ar eu hagenda, a'u hannog hefyd i hyrwyddo'r deunyddiau ôl-16 ar lefel sirol. | Christian denominations in Wales, with a £800 shortfall. REMW has agreed to meet that shortfall.<br><br>Gavin Craigen was thanked again for his work in organising the Conference.<br><br>After the presentation, Bethan James (with reference to the NAPfRE meeting held on the previous day) endorsed the thanks given to Gavin Craigen and Denize Morris and the success of the Conference. At the NAPfRE meeting it was discussed whether there could be a second chance of holding the conference for those who had not attended, but realised that costs meant that it was not practical to do so. However, it was asked whether it would be possible if future DCELLS conferences relating to the 14-19 agenda could include a section within it relating to RE, for those who had not been at the October conference.<br><br>It was agreed that a letter should be sent to LEA Directors of Education about this subject so that it was on their agenda and also encouraging them to push the post-16 materials at county level. |
| **12. U.F.A**<br>(a) Fel cynrychiolydd CCYSAGC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr, beirniadodd Mairwenna Lloyd bolisi'r Cyngor o anfon gohebiaeth drwy e-bost yn unig, gan fod hyn wedi golygu nad oedd hi wedi derbyn unrhyw hysbysiadau ers Mawrth 2006. Cytunwyd y byddai cynrychiolydd arall o CCYSAGC yn cael ei b/phenodi, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. Nododd Gavin Craigen (cynrychiolydd arall ar y Cyngor) ei fod ef hefyd yn dymuno i rywun arall gymryd ei le. Diolchwyd i'r ddau gynrychiolydd am eu gwaith. | **12. A.O.B**<br>(a) As WASACRE representative on the RE Council for England and Wales, Mairwenna Lloyd criticised the Council's policy of e-mail only correspondence which resulted in her not receiving any notifications since March 2006. It was agreed that another WASACRE delegate would be appointed and this would be considered in the next Executive meeting. Gavin Craigen (another representative on the Council) indicated that he also wished to be replaced. Both representatives were thanked for their work. |

| | |
|---|---|
| (b) Rhoddodd y Cadeirydd, Vaughan Salisbury, wybod i'r aelodau fod gradd 1 wedi ei dyfarnu i Goleg y Drindod yn dilyn arolwg diweddar gan Estyn, a diolchodd i bawb a oedd wedi chwarae rôl yn hyn. | (b) The Chair, Vaughan Salisbury, informed members that Trinity College had been awarded a grade 1 in a recent Estyn inspection, and thanked all those who had played a role in this. |
| (c) Codwyd mater presenoldeb yng nghyfarfodydd CCYSAGC unwaith eto; cytunwyd bod pob cam priodol wedi ei gymryd i gynyddu presenoldeb. Cadarnhawyd sefyllfa a gwerth ymgynghorwyr a oedd yn cynrychioli CYSAG'au. Er bod mwy o gynrychiolwyr a oedd yn athrawon yn bresennol yn y cyfarfod, gwnaeth rhai aelodau sylw unwaith eto ar y problemau ariannu yr oedd athrawon wedi eu cael yn eu AALl'au, ac ar y modd yr oedd hyn yn effeithio ar bresenoldeb . | (c) Attendence at WASACRE meetings was raised again; it was agreed that all appropriate measures had been taken to increase attendance. The position and value of advisors representing SACREs was affirmed. Although there were more teacher representatives present at the meeting, some members commented again on the funding problems that teachers in their LEAs had experienced which affected attendance. |
| Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben, gan ddiolch i Emma Tapper, Clerc CYSAG Sir Fynwy, ac i Wyn Hobson, y cyfieithydd. | The Chair closed the meeting, thanking Emma Tapper, Clerk to SACRE for Monmouthshire and Wyn Hobson, the translator. |
| **Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ddydd Gwener 13 Mawrth 2009 (lleoliad i'w gadarnhau).** | **The next meeting will be held in Bridgend, Friday, 13 March 2009 (location to be confirmed).** |